Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Garth Olwg
**Heol St Illtyd**
**Pentre'r Eglwys**
**Pontypridd**
**Rhondda, Cynon, Taf**
**CF38 1RQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg yn ysgol benodedig Gymraeg sydd wedi'i lleoli mewn adeilad cyfoes ym Mhentre'r Eglwys, tua phedair milltir o Bontypridd. Mae'r adeilad yn rhannu campws ag Ysgol Gyfun Garth Olwg, Canolfan Addysg Gydol Oes Garth Olwg a Meithrinfa a reolir yn breifat. Adeiladwyd yr ysgol fel rhan o gynllun Menter Cyllid Preifat. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys y gymuned o'i chwmpas ac ardaloedd cyfagos. Mae'r ysgol yn datgan bod dalgylch yr ysgol ar y cyfan yn gymharol ffyniannus.

Mae gan 6.3% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sy'n sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Deuddeg dosbarth sydd yn yr ysgol gyda dau ohonynt yn ddosbarthiadau oed cymysg. Lleolir un dosbarth yn adeilad yr ysgol uwchradd.

Adeg yr arolygiad, roedd 330 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr o gymharu â 271 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2005. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 54 arall ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.

Daw 8% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu drwy'r ysgol, gan ychwanegu'r Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae pum aelod staff wedi ymuno â'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys y pennaeth, sydd wedi bod yn ei swydd er Medi 2010. Adeg yr arolygiad roedd tair athrawes yn absennol oherwydd salwch neu gyfnod mamolaeth.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Garth Olwg yw £2,605 sy'n cymharu gydag uchafswm o £9,064 ac isafswm o £2,553 ar gyfer ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 114edd uchaf o'r 116 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf.

Wrth ddarllen y datganiad cyllideb ysgol uchod dylid cadw mewn cof y cyllidir Ysgol Garth Olwg fel ysgol Menter Cyllid Preifat.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod ethos gofalgar a gweithgar yn bodoli, sy'n hybu parch, cwrteisi ac agwedd iach tuag at weithio, a hynny mewn awyrgylch Gymreig; a
- bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn gynhwysfawr.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinwyr, rheolwyr a staff yn rhannu'r un weledigaeth sy'n gysylltiedig â chodi safonau;
- bod cynllunio datblygiad yn elfen greiddiol o fywyd a gwaith yr ysgol; a
- bod y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog;

A2 barhau i fynd i'r afael â chodi presenoldeb;

A3 rhannu arfer dda o safbwynt yr addysgu ar draws yr ysgol; a

A4 datblygu ymhellach y gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol a gyflwynwyd yn ddiweddar.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol bod medrau sylfaenol llawer o'r plant yn gyfyng Serch hynny, erbyn diwedd eu cyfnod yn y dosbarth derbyn mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r modd y mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rheolaidd yn nodwedd gref. Gall y mwyafrif drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn y Gymraeg ar draws yr ysgol, ac yn y Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae eu gwybodaeth o eirfa sy'n benodol i'r meysydd dysgu yn arbennig o dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith ac yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cyflawni'n dda. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni i'w gallu llawn yn ôl tystiolaeth a welwyd o waith disgyblion, dadansoddiad o ddata'r ysgol ac arsylwadau gwersi. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn o'u cymharu â'r merched, er bod y data yn awgrymu bod rhywfaint o wahaniaeth mewn ysgrifennu gyda'r bechgyn yn perfformio'n sylweddol is na'r merched.

Mae canlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn dangos tuedd ar i fyny a bod canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig (lefel 2) yn gyson uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Mae cyraeddiadau'r ysgol o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg yn amrywio. Yn y Gymraeg ac mewn gwyddoniaeth mae canlyniadau'r ysgol yn gyson uwch na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae'r canlyniadau mewn mathemateg yn gyson uwch na'r awdurdod lleol a Chymru, ond yn is na chyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y Gymraeg, mae'r canran a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) dros y tair blynedd ddiwethaf yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru, ond yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau'n anwastad, weithiau'n uwch ac weithiau'n is, ar gyfer lefel 3 mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefelau disgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg wedi amrywio rhwng y 25% uchaf ac ychydig o dan y 50%

uchaf dros bedair blynedd. Mae canlyniadau mathemateg wedi bod yn gyson yn y 50% isaf, tra bod canlyniadau gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mae'r dangosydd pwnc craidd,(y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf dros bedair blynedd.

Mae'r tuedd yng nghanlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywiol, ond yn dangos bod y disgyblion yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig (lefel 4) yn gyson uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru ym mhob pwnc a'r dangosydd pwnc craidd. Er hynny, mae cyraeddiadau'r ysgol o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg yn amrywio o bwnc i bwnc ac o flwyddyn i flwyddyn.

Yn y Gymraeg, mae'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) dros y tair blynedd ddiwethaf yn is o gymharu â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Yn y Saesneg, ac ym mathemateg mae'r canrannau a gyrhaeddodd y lefel uwch na'r disgwyl weithiau'n uwch ac weithiau'n is o'u cymharu â'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Mewn gwyddoniaeth mae'r canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch na'r disgwyl yn cymharu'n ffafriol â'r awdurdod lleol, yn amrywio o gymharu â Chymru ond yn gyson is na'r teulu o ysgolion tebyg.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt y dangosydd cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol ar gyfer y lefel disgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% isaf yn y dangosydd pwnc craidd a phob pwnc ac eithrio gwyddoniaeth, lle mae wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros bedair blynedd.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda mewn gwersi ac ar yr iard. Mae'r mwyafrif yn dangos cymhelliant ac maent yn falch o'u gwaith. Maent yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu eu hunain. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd a bron yn ddieithriad maent yn gwrtais wrth ymdrin ag oedolion ac ymwelwyr.

Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut y gallant ddod yn iach. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff ar gyfer eu datblygiad personol ac addysgol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gydwybodol wrth ofalu am y plant iau ar wahanol adegau'n ddyddiol.

Mae'r weithdrefn ar gyfer cofrestru yn gywir ac yn cwrdd â gofynion statudol. Cyfradd presenoldeb yr ysgol dros y tri thymor diwethaf yw 92.4%, sy'n uwch na chyfradd yr awdurdod lleol, ond yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim yn 2009-2010. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb ac maent yn parchu hynny.

Drwy waith effeithiol y Cyngor Ysgol a thrwy weithdrefnau eraill yr ysgol caiff grwpiau amrywiol o ddisgyblion gyfleoedd cyson i gyfrannu at fywyd a datblygiad yr ysgol. Ceir nifer o weithgareddau sy'n cysylltu'r disgyblion gyda'r gymuned ehangach. Er

enghraifft, mae grwpiau o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn sesiynau sgwrsio gydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Gydol Oes.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Darpara yn arbennig, dasgau penodol sydd wedi eu cynllunio er mwyn cau'r gagendor rhwng safon ysgrifennu'r bechgyn a'r merched. Mae systemau cynllunio'r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad da o weithgareddau amrywiol. Mae cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio.

Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion o fewn llawer o'r gwersi a arsylwyd. Ar ei orau, mae hyn yn effeithiol, ond nid yw bob amser yn diwallu holl anghenion y disgyblion mwyaf galluog. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu elfennau o hanes, daearyddiaeth celf a cherddoriaeth Cymru yn gryfder yn yr ysgol.

Mae addysg ar gyfer cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn dangos elfen o ragoriaeth, gyda'r ysgol yn ddeiliad Gwobr Ysgolion Rhyngwladol dwywaith. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth o fywyd plant yn India ac Affrica trwy gyfrwng yr agwedd hon. Trwy waith y Cyngor Eco, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd arbed ynni a dŵr.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dosbarth ar draws yr ysgol.

Yn y gwersi gorau, ceir cyflymdra addas, tasgau diddorol a chwestiynu treiddgar. Bron yn ddieithriad, mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi. Mae disgwyliadau'r athrawon ar y cyfan yn uchel ac fel arfer maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn eu herio. Er hynny, anghyson yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r disgyblion mwyaf galluog.

Mae ethos cefnogol ac awyrgylch weithgar ym mhob dosbarth, lle mae pawb yn cael ei barchu. Gwelir enghreifftiau da o farcio manwl ac ymateb adeiladol i waith disgyblion, sy'n eu helpu i ddeall sut i ddatblygu eu gwaith ysgrifenedig. Er hynny, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws pob dosbarth. Mae athrawon yn galluogi'r disgyblion i adnabod targedau ar gyfer gwella ac yn eu cofnodi mewn amrywiol ffyrdd.

Mae systemau asesu effeithiol gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r drefn hon. Mae system dracio gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol, gan gynnwys disgyblion galluog a'r rhai sy'n debygol o dangyflawni erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau'r athrawon a gwneir defnydd effeithiol ohonynt yn y gwersi gorau. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn y mwyafrif o wersi.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Anogir y disgyblion i fynegi barn ac i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod yn gysylltiedig â gweithgareddau o fewn y gymuned leol. Darperir yn briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn ddyddiol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch ymhob gweithgarwch. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu cydymdeimlad â diwylliannau eraill er mwyn deall y gwahaniaethau rhwng pobl o wahanol rannau o'r byd yn effeithiol iawn.

Gwneir defnydd effeithiol o ystod o wasanaethau arbenigol er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, er enghraifft yr heddlu er mwyn deall sut i fod yn ddiogel, y gwasanaeth tân er mwyn deall peryglon tân, a'r nyrs er mwyn deall materion sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y corff.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r rhain yn wybyddus i'r holl staff a gŵyr y disgyblion at bwy i droi mewn cyfyngder.

Mae'r cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn un o gryfderau'r ysgol. Mae darpariaeth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ac maent yn cael eu hadnabod yn gynnar iawn. Mae'r athrawes cefnogi iaith yn sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o anghenion pob plentyn ar y gofrestr, yn eu deall ac yn darparu rhaglenni gwaith effeithiol ar eu cyfer. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn asesu cynnydd y disgyblion hyn yn rheolaidd gan ystyried a yw'r disgyblion wedi cwrdd â'r targedau sydd yn y cynlluniau addysg unigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos croesawgar sy'n darparu amgylchedd diogel, ysgogol a chefnogol i bob disgybl. Mae gan bob disgybl fynediad at bob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae pob un yn cael ei annog i ymgymryd yn llawn â holl elfennau o fywyd yr ysgol, beth bynnag eu cefndiroedd neu anghenion. Mae ymwybyddiaeth mwyafrif y disgyblion o gredoau a diwylliannau wedi'u datblygu'n bwrpasol ac maent yn oddefgar iawn o'i gilydd. Ceir ystod eang o weithgareddau sy'n meithrin dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r ysgol yn delio ag achosion o ymddygiad heriol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o safon uchel er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm a gwneir defnydd effeithlon a phwrpasol ohonynt. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r rhodfeydd yn lliwgar, yn symbylus ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r adeiladau yn cwrdd â gofynion y disgyblion yn effeithiol. Mae'r defnydd pwrpasol o'r ardaloedd allanol, gan gynnwys y rhandir a'r goedwig gyfagos, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. O ganlyniad i'r twf yn nifer y disgyblion, nid yw'r adeilad presennol yn ddigon mawr. Er hynny, gwneir trefniadau effeithiol i leoli disgyblion Blwyddyn 6 mewn ystafell ddosbarth wag yn yr ysgol uwchradd sydd ar yr un campws.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion clir ac mae'r rheolwyr ac arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth a'u gwerthoedd yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn rhoi cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth, y staff, a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n dda. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol sydd yn gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol. Mae'r cyd-gysylltwyr cwricwlaidd yn cynnig arweiniad clir ynglŷn â'u meysydd mewn cyfarfodydd staff rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth briodol o berfformiad yr ysgol. Cyniga gefnogaeth lwyddiannus mewn cynllunio strategol a chyflawna ei ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae'r corff llywodraethol, ar y cyd â'r pennaeth, wedi sefydlu trefniadau effeithiol yn ddiweddar ar gyfer cefnogi'r ysgol ymhellach yn y broses o fonitro, gosod targedau a datblygu'r ysgol yn gyffredinol. Nid oes digon o amser wedi bod eto ar gyfer mesur gwir effaith pob elfen o'r broses hon.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Gweithredir y Cyfnod Sylfaen a nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gydwybodol. Llwyddodd yr ysgol i ennill Gwobr Ysgol Rhyngwladol ddwywaith am ei gwaith ym maes Dinasyddiaeth Fyd Eang. Yn ystod 2010 llwyddodd yr ysgol i ennill nod ansawdd Sgiliau Sylfaenol, gwobr BECTA, y Faner Werdd, statws Ysgol Fasnach Deg ac Ysgolion Iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da ac ar y cyfan mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Addaswyd amserlen hunan arfarnu'r ysgol yn ddiweddar a bellach mae'r weithdrefn yn gweithredu ar gynllun

cylch dwy flynedd. Sicrheir bod pob aelod o'r staff yn rhan o'r broses hon. Anfonir holiaduron at rieni, disgyblion a llywodraethwyr a defnyddir system *Moodle ar* gyfer derbyn ymatebion. Mae deilliannau'r broses hunan arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r broses hefyd yn cynnwys arsylwi gwersi, holi dysgwyr ac edrych ar waith y disgyblion.

Cynhyrchir cynllun datblygu ysgol, sydd o ansawdd da, ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio'n briodol, y person â chyfrifoldeb wedi ei enwi, yr amser gweithredu wedi ei nodi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion o fewn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon yn gynwysedig mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn y sefydliad ac yn ehangach gydag ysgolion eraill. Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd i drafod a rhannu arferion diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu. Yn ehangach gweithir yn agos ag ysgolion y clwstwr lleol ar amryw o gyweithiau yn arbennig y gweithgareddau pontio gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae'r partneriaethau hyn yn dylanwadu'n bositif ar gynllunio ac ar ddatblygu'r arferion diweddaraf mewn addysgu yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r ysgol wedi creu cyswllt cychwynnol ag un ysgol o fewn y teulu o ysgolion yn ymwneud â gwella ansawdd ysgrifennu'r bechgyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf ag ystod o bartneriaid gwahanol. Manteisir ar y cysylltiad gyda'r Ganolfan Gydol Oes leol a'r ysgol uwchradd sydd ar yr un campws, wrth i'r disgyblion ddefnyddio'u hadnoddau'n achlysurol, er enghraifft y theatr, llyfrgell, a labordai gwyddoniaeth.

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gref sy'n gefnogol iawn i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae gwefan newydd yr ysgol wedi cryfhau'r cysylltiadau gyda'r rhieni a'r gymuned. Daw carfan o rieni i mewn i'r ysgol yn gyson i gynnig gwasanaeth ar gyfer gwrando ar ddisgyblion yn darllen ac i gynorthwyo yn ystod ymweliadau addysgol yn arbennig.

Mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn dda. Trefnir ymweliadau â mannau gwaith lleol. Mae'r ysgol wedi ei chysylltu'n agos gyda chapel Salem, Ton-teg. Cynhelir cyngherddau yno ac mae'r Gweinidog yn ymwelydd cyson â'r ysgol. Daw aelodau o'r gymuned i mewn i'r ysgol hefyd i siarad â'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Gwna amryw o ymwelwyr eraill o'r gymuned leol a phellach gyfraniad da i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn derbyn cymorth a chyngor gan asiantaethau arbenigol y sir, megis y seicolegwyr addysg a'r therapyddion iaith a lleferydd, er mwyn diwallu anghenion ychwanegol carfan benodol o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol gynlluniau newydd perthnasol yn eu lle i gryfhau ymhellach y bartneriaeth â'r meithrinfeydd lleol sy'n ei bwydo.  Mae ganddi hefyd drefniadau pontio effeithiol iawn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.  Mae'r trefniadau hyn yn gymorth priodol i helpu'r disgyblion ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau megis ysgolion eraill y clwstwr, Ysgol Gilwern a Maes yr Haf, Partneriaeth Addysg a Busnes, a chyflogwyr lleol.  Mae ganddi gysylltiadau agos hefyd â cholegau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Mae'r ysgol yn gwneud gwell defnydd o'r cyllid sydd ar gael iddi trwy gydgyfrannu cyllid â'r ysgolion clwstwr i gynnig hyfforddiant mewn swydd ar y cyd.  Mae hefyd yn rhannu adnoddau â'r ysgol uwchradd a'r Ganolfan Gydol Oes megis y gampfa, yr *astroturf* a'r theatr.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar raddfa dalgylch yr ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae adnoddau staffio ac adnoddau ariannol yr ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu.  Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol.  Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion ac i greu amgylchedd dysgu symbylus.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithlon o'u hamser dyladwy ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safon y cynllunio.  Defnyddir arbenigeddau staff i gefnogi o fewn meysydd y cwricwlwm a chynnig hyfforddiant mewnol priodol.  Mae'r hyfforddiant hwn yn seiliedig ar ddeilliannau'r drefn rheoli perfformiad er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft codi safonau ysgrifennu bechgyn drwy'r ysgol.

Mae digon o adnoddau o ansawdd dda ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion ac mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ymateb i'r blaenoriaethau a osodwyd o fewn y cynllun datblygu ysgol a gwneir defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael gyda symiau rhesymol yn unig wrth gefn o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd a deilliannau da'r dysgwyr, ynghyd â'r defnydd priodol o'r cyllid.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron y disgyblion**

Mae bron pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, eu bod yn gwneud yn dda yno, bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu, a’u bod yn gwybod beth i’w wneud ac at bwy i droi os ydyn nhw’n gweld y gwaith yn anodd.

Mae’r rhan fwyaf yn gwybod at bwy i droi os ydyn nhw’n poeni neu’n gofidio, bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i ymarfer y corff yn rheolaidd a bod digon o adnoddau ar gael er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith.

Cred llawer bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio a bod y gwaith cartref sy’n cael ei osod yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion hefyd o’r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y gwersi fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod bron pob un yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Holiaduron y rhieni**

Dychwelwyd 66 o holiaduron oddi wrth rieni.

Mae bron pob un yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol, yn honni bod eu plant yn hoffi’r ysgol, eu bod yn teimlo’n ddiogel yno, a’u bod wedi cael cymorth i ymgartrefu’n dda yno pan ddechreuon nhw. Mae bron pob un hefyd o’r farn bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol, bod yr addysgu’n dda a bod gan y staff ddisgwyliadau uchel oddi wrth y disgyblion. Credant hefyd bod y disgyblion yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Cred y rhan fwyaf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch, eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant, a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Cred y than fwyaf hefyd bod yr ysgol yn trefnu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau a’u bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiynau i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae llawer o’r rhieni yn teimlo bod y gwaith sy’n cael ei roi yn adeiladu’n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, bod eu plant wedi eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Glenn Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Hefin Gruffydd | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |